

Cynorthwydd Cyfathrebu a Digwyddiadau

Gwybodaeth Allweddol

Yn Adrodd i	Rheolwr Cyfathrebu
Contract	Llawm amser, parhaol (Ystyrir rhannu swydd)
Cyflog	£24,242 - £27,388 (pro rata)
Lleoliad	Cyfuniad o swyddfa (Caerdydd) a gweithio gartref gydag o leiaf 50% o'r wythnos yn cael ei dreulio yn y Swyddfa neu 'ar leoliad' (mewn digwyddiadau ac ati)
Dyddiad Cau	13 Ionawr 2025

Trosolwg o'r Rôl

Rydym yn chwilio am unigolyn brwdfrydig i ymgymryd â rôl gyfathrebu a marchnata cyffrous a heriol yn y sector addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith.

Gan weithio'n agos gyda chydweithwyr Polisi a Materion Cyhoeddus ac adrodd i'r Rheolwr Cyfathrebu, bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gyfrifol am gynnal a datblygu llwyfannau marchnata digidol i raddau helaeth i hyrwyddo buddion addysg a hyfforddiant ôl-orfodol, ac i gyfleu negeseuon allweddol y sefydliad yn glir i'n rhanddeiliaid mewnol ac allanol.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cefnogi cydweithwyr Colegau Cymru i ddatblygu ein hunaniaeth brand ac ehangu ymwybyddiaeth o bwrsas, gweithgareddau a blaenoriaethau Colegau Cymru. Bydd y rôl hefyd yn cynnwys cefnogi cydweithwyr i gyflwyno a gweinyddu ein rhaglen flynyddol o ddigwyddiadau. Rydym yn chwilio am ymgeisydd ag agwedd gall-wneud, gyda sylw da i fanylion, sy'n canolbwyntio ar atebion.

Mae hon yn rôl hybrid, ac ar hyn o bryd yn gyfle gweithio o gartref yn bennaf ond bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus weithio'n rheolaidd o swyddfeydd Colegau Cymru yng Nghaerdydd ac mewn gwahanol leoliadau coleg a sector, felly mae'r gallu i gymudo yma yn hanfodol. Efallai y bydd angen parodrwydd i deithio ledled Cymru, o fewn y DU ac yn rhyngwladol weithiau, a gweithio y tu allan i oriau gwaith arferol hefyd.

Prif Ddyletswyddau

- Cynorthwyo i ddatblygu a darparu mentrau cyfathrebu dwyieithog effeithiol ar draws lwyfannau ar-lein yn bennaf (gan gynnwys gwefan, cyfryngau cymdeithasol, e-bost) i hysbysu rhanddeiliaid mewnol ac allanol.
- Gweithio gyda chydweithwyr ColegauCymru a phartneriaid allanol i greu a hwyluso cyfathrebu effeithiola digwyddiadau, ac i fonitro llwyddiant yn unol â hynny.
- Sicrhau fod holl lwyfannau digidol ColegauCymru yn cael eu diweddarau, eu cynnal a'u datblygu'n rheolaidd, gan adolygu a gwella profiad y defnyddiwr yn barhaus.
- Cefnogi cydweithwyr i wneud defnydd effeithiol o frand ColegauCymru a chanllawiau cysylltiedig trwy gynhyrchu deunyddiau digidol o ansawdd uchel.
- Cefnogi ColegauCymru i drefnu digwyddiadau mewn colegau a lleoliadau eraill fel y bo'n briodol. Bydd hyn yn cynnwys cymorth ar gyfer prosiectau penodol a pharhaus, yn ogystal â chefnogi digwyddiadau ad hoc yn ôl yr angen.
- Cefnogi'r Rheolwr Cyfathrebu i gynnal ac adeiladu presenoldeb ac enw da digidol ColegauCymru, gan gynnwys rheoli llyfrgell o gynnwys y gellir ei aildefnyddio.
- Gan ddefnyddio offer gwerthuso, adrodd ar berfformiad ac ymgysylltiad amrywiol lwyfannau digidol ColegauCymru.
- Cynhyrchu a chynnal cyfathrebiadau mewnol ac allanol dwyieithog ColegauCymru, gan gynnwys gwefannau, cyfryngau cymdeithasol, deunyddiau marchnata, cyhoeddiadau, cylchlythyrau, gwahoddiadau, hysbysebion ac adroddiadau blynyddol.
- Drafftio copi ysgrifenedig deniadol, wedi'i deilwra ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd ac ar draws sawl sianel, gan gynnwys ysgrifennu blogiau, datganiadau i'r wasg, ac ymatebion i ymholiadau gan y cyfryngau.
- Monitro sylwadau cyfryngau ar-lein a thraddodiadol.
- Cynorthwyo gyda chynhyrchu a marchnata digwyddiadau ColegauCymru, gweminarau, podlediadau a mentrau eraill yn ôl yr angen.
- Awgrymu dulliau arloesol o gyfathrebu ac ar gyfer digwyddiadau sy'n herio arferion a ffyrdd traddodiadol o wneud pethau.
- Unrhyw dasgau cysylltiedig eraill yn unol â chyfarwyddyd y Rheolwr Cyfathrebu.

Gofynion Iaith Gymraeg

Mae ColegauCymru yn sefydliad dwyieithog balch ac mae sgiliau Gymraeg yn cael eu hystyried yn gaffaeliad i'r sefydliad. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd datblygu a thyfu gweithlu dwyieithog ac yn annog a chefnogi staff i ddysgu, datblygu a defnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg yn y gweithle.

Mae sgiliau Gymraeg yn ddymunol ond nid yn hanfodol i'r rôl hon. Mae croeso i ymgeiswyr gysylltu â ColegauCymru i drafod y gofyniad hwn. Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Manyleb Person

Meini Prawf Hanfodol
Cymhwyster mewn maes pwnc perthnasol a/neu brofiad proffesiynol perthnasol.
TGAU Saesneg a Mathemateg Gradd C neu'n uwch.
Dealltwriaeth o ymgyrchoedd cyfathrebu digidol integredig.
Sgiliau ysgrifennu a golygu ardderchog gyda phwyslais ar ddatblygu copi hygyrch, yn ddelfrydol ar gyfer sianeli digidol, yn ogystal â sylw i fanylion a phrawf ddarllen cynnwys.
Dealltwriaeth ac angerdd dros ddatblygu a chyflwyno cyfathrebu digidol creadigol a gweithgarwch cyfryngau cymdeithasol ac ar gyfer golygu gwefannau.
Y gallu i gydweithio fel rhan o dîm ac i gefnogi cydweithwyr gyda'u gwaith.
Y gallu i weithio dan bwysau, i derfynau amser tynn a blaenoriaethu eich llwyth gwaith eich hun. Rhaid i hyn gynnwys y gallu i gwblhau tasgau i gyllidebau y cytunwyd arnynt, o fewn amserlenni a safonau a osodwyd.
Ymrwymiad i bwrpas a gwerthoedd addysg bellach ac i chwarae rhan yn llwyddiant y sector.
Dangos dealltwriaeth gadarn o dechnoleg sy'n berthnasol i'r gwaith a nodi a dewis y dechnoleg fwyaf priodol ar gyfer tasgau penodedig, gan gynnwys y pecyn MS Office gan gynnwys MS Teams, Zoom, yn ogystal â llwyfannau cyfryngau cymdeithasol.
Y gallu i ddelio â rhanddeiliaid mewnol ac allanol.
Ymagwedd gadarnhaol ac ymarferol at ddatrys problemau.
Meini Prawf Dymunol
Gwybodaeth am Google Analytics a/neu offer eraill i fonitro traffig gwefannau a chyfryngau cymdeithasol, cynhyrchu adroddiadau a gwella perfformiad ar-lein.
Sgiliau Cymraeg
Trwydded yrru DU

Y Broses Ymgeisio

Anfonwch CV sy'n dangos sut rydych chi'n cwrdd â'r Fanyleb Person, ynghyd â llythyr eglurhaol byr sy'n mynd i'r afael â'r cwestiynau isod. Ni ddylai'r ateb i bob un cwestiwn fod yn fwy na 200 gair.

1. Pa sgiliau sydd eu hangen ar gynorthwydd cyfathrebu yn eich barn chi i fod yn llwyddiannus?
2. Disgrifiwch y pum pwynt gorau y byddech chi'n eu hystyried pe baech chi'n trefnu digwyddiad wyneb yn wyneb.
3. Beth yw'r pethau allweddol y byddech chi'n eu hystyried ar gyfer trefnu cyfarfod ar-lein?
4. Pam ydych chi'n meddwl bod rhoi sylw i fanylion yn rhan bwysig o'r rôl hon?
5. Beth yw eich cyflawniad mwyaf balch, a pha ran wnaethoch chi ei chwarae wrth ei wneud yn llwyddiant (gallai hyn fod mewn cyd-destun personol neu broffesiynol)?

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Gofynnwn ichi lenwi ein Ffurflen Cydraddoldeb ac Amrywiaeth pan fyddwch yn gwneud cais. Mae hyn yn wirfoddol, ac yn anhysbys, ond mae'n ein helpu i sicrhau ein bod yn gynhwysol yn ein recriwtio.

Dyddiad Cau

Dylid cyflwyno ceisiadau drwy e-bost i HR@colegaucymru.ac.uk erbyn **12.00pm** ar **13 Ionawr 2025** fan bellaf.

Cyfweliadau

Cynhelir cyfweliadau ar **21 Ionawr 2025** wyneb i wyneb.

Gwiriad Datgelu DBS

Sylwch y gall yr ymgeisydd llwyddiannus fod yn destun gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).